



Twitter: [@PINSgov](https://twitter.com/PINSgov)

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
<https://gov.wales/topics/planning/appeals/?skip=1&lang=cy>

APÊL HYSBYSIAD CYNNAL A CHADW TIR

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0303 444 5940. I'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn gywir, cyfeiriwch at ein Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru.

RHYBUDD: Mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio cyn y dyddiad y daw'r Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir i rym.

YSGRIFENNWCH YN GLIR MEWN LLYTHRENNAU BRAS GAN DDEFNYDDIO INC DU

A. APELYDD – Mae'n **rhaid** i'r unigolyn/unigolion a enwir sy'n cyflwyno'r apêl fod wedi cael Hysbysiad neu fod â buddiant yn y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef. **Os nad yw hyn yn wir, ni ellir cofrestru'r apêl.**

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	

B. AGENT (if any) FOR THE APPEAL

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Rhif Cyfeirnod	

C. AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL (ACLI)

Enw'r ACLI	
Dyddiad Cyhoeddi'r Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir	
Dyddiad y Daw'r Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir i Rym	
Rhif Cyfeirnod yr Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir	

CH. SAFLE'R APÊL

Y tir yr effeithir arno (rhowch y cyfeiriad llawn)	
Cod Post	

	OES*	NAC OES
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar neu ger y safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? *Os oes, esboniwch yn eich datganiad llawn o'r achos (adran E)		

	BYDDAI	NA FYDDAI
A fyddai'r Arolygydd yn gallu gweld y rhannau perthnasol o safle'r apêl yn ddigonol i farnu ynglŷn â'r cynnig o dir cyhoeddus?		
	YDYW*	NAC YDYW
A yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol? *Os 'YDYW', esboniwch isod		

SYLWER: Fel arfer, bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun heb y naill barti na'r llall. Ond, os na ellir gweld y rhan berthnasol o'r safle o'r ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu os yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu i'r Arolygydd gael mynediad.

D. BUDDIANT YN Y TIR

	Perchennog	Meddiannwr
Beth yw eich buddiant chi/buddiant yr apelydd yn y tir?		

	OEDDWN	NAC OEDDWN *
Os nad yw'r un o'r uchod yn berthnasol, a oeddech chi/yr apelydd yn meddiannu'r tir o dan drwydded ysgrifenedig neu lafar ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad gorfodi AC ar ddyddiad cyflwyno'r apêl?		
* Os "NAD OEDDECH/NAD OEDD", sut ydych chi/yr apelydd yn gysylltiedig â'r tir?		

DD. SEILIAU

Ticiwch i ddangos ar ba un o'r seiliau canlynol rydych chi'n apelio yn erbyn yr hysbysiad a rhowch eich **ffeithiau llawn** i gefnogi pob un o'r seiliau a ddewiswyd.



1.	Nad yw cyflwr y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn cael effaith niweidiol ar amwynder unrhyw ran o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gyflwynodd yr hysbysiad, nac unrhyw ardal gyfagos	
2.	Y gellir priodoli cyflwr y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, gyda threigl arferol amser, i gynnal gweithrediadau neu ddefnydd tir nad yw'n groes i ran III	

DD. SEILIAU (parhad)



3. **Bod gofynion yr hysbysiad yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i atal cyflwr y tir rhag cael effaith niweidiol ar amwynder unrhyw ran o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gyflwynodd yr hysbysiad, neu unrhyw ardal gyfagos**

4. **Bod y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad fel y cyfnod o fewn pryd y mae'n rhaid cymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad yn fyr o'r hyn a ddylai gael ei ganiatáu'n rhesymol**

E. GWEITHDREFN

Gall apeliadau yr ymdrinnir â nhw o dan Ran 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 gael eu hystyried trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad neu weithdrefnau cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017, mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu ar y weithdrefn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried eich blaenoriaethau, fel yr amlygir isod, wrth wneud hynny. Os hoffech gael eich clywed, byddwn yn penderfynu a oes angen cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau digonol dros gael eich clywed, byddwn yn defnyddio'r weithdrefn cynrychiolaethau ysgrifenedig.

Ticiwch un blwch yn unig



Rydw i eisiau i'm hapêl gael ei phenderfynu trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig	
Rydw i eisiau ymddangos ac i'm hapêl gael ei chlywed gan Arolygydd	

Os ydych eisiau cael eich clywed, esboniwch eich rhesymau isod

F. COSTAU (gweler y Canllaw Gweithdrefnol am ragor o wybodaeth)

	YDW	NAC YDW
A ydych chi'n bwriadu cyflwyno cais am gostau gyda'r apêl hon? <i>Os ydych, rhowch eich achos isod</i>		

Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen

FF. DOGFENNAU ATEGOL

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych chi'n eu hamgáu.



1	Copi o'r Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir a gyflwynwyd i chi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol	
2	Unrhyw ohebiaeth berthnasol â'r ACLI	
3	Unrhyw gynlluniau, lluniadau, dogfennau neu ffotograffau sy'n ymwneud â'r safle	

G. APELIADAU ERAILL

Os ydych wedi anfon apeliadau eraill atom ynglŷn â'r safle hwn neu safleoedd cyfagos ac nid ydynt wedi cael eu penderfynu eto, rhowch fanylion a'n rhifau cyfeirnod ni.

Manylion Personol (*ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus*)

1. MANYLION PERSONOL YR APELYDD

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	English	Welsh
Language Preference		


	E-mail	Post
I prefer to be contacted by		

2. AGENT PERSONAL DETAILS (if any)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Cysylltwch â mi drwy		

 Mae'r data personol a roddir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei gasglu a'i brosesu yn unol â thelerau ein cofrestrriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael ar ein gwefan yn yr adran "Polisi Preifatrwydd" (http://planninginspectorate.wales.gov.uk/privacy_policy)

Llofnodwch y ffurflen ar Dudalen 8

GWIRIO, LLOFNODI A DYDDIO

	YDW	NAC YDW
Rydw i wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen		
Rydw i wedi atodi copi o'r Hysbysiad Cynnal a Chadw Tir i'r ffurflen hon		
Rydw i wedi anfon copi o'r ffurflen hon a dogfennau at yr ACLI		
Rydw i'n deall y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gallai manylion gan gynnwys fy enw, disgrifiad o'r safle a'm seiliau apêl ymddangos ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydw i'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.		

LLofnod:

Enw (mewn priflythrennau) Dyddiad

Ar ran (os yw'n berthnasol)

ANFON**Anfonwch 1 COPI atom ni yn:**

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: cymru@pins.gsi.gov.uk

Llinell gymorth: 0303 444 5940

Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion**Anfonwch 1 COPI at yr ACLI yn:**

- y cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad gorfodi ohono; neu'r
- cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth yr ACLI.

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi gwybod i chi a yw'ch apêl yn ddilys, pwy sy'n ymdrin â hi a beth fydd yn digwydd nesaf.

© Hawlfraint y Goron 2017

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad uchod neu drwy neges e-bost at: cymru@pins.gsi.gov.uk